# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 21ain o Ionawr 2019 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Bethan Lawton, Simon Jones

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Griffith Evan Thomas

Mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad ar ran y Cyngor gyda theulu'r diweddar Peter Ernest Parker a bu farw ar 11 Ionawr 2019. Yr oedd Peter wedi bod yn gynghorydd am nifer o flynyddoedd a pob amser yn barod i gyfrannu at y drafodaeth a bu iddo gyflawni llawer yn y pentref.

**PENDERFYNIAD:** I anfon llythyr o gydymdeimlad.

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un Cynghorydd ddatgan buddiant.

3. Derbyn cofnodion 19 Tachwedd 2018:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir, gyda'r Cynghorydd Arwel Pierce yn cynnig a'r cynghorydd Bethan Lawton yn eilio'r cynnig.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101638 | £357.04 |
| Cyllid a Thollau | Yswiriant Gwladol | 101639 | £89.40 |
| Capel Bethlehem | Rhodd | 101640 | £20.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau.

5. Cylch yr Iaith - Ail-strwythuro Canolfannau Iaith Gwynedd:

Cafwyd trafodaeth am yr ail-strwythuro ac yr angen yn dilyn toriad mewn grant gan Lywodraeth Cymru, a ni fyddai'r ail-strwythuro yn amharu ar ddarpariaeth addysg.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

6. Cyngor Gwynedd - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - Ymgynghoriad ar Bolisi Gosod Tai Gyffredin Gwynedd:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

7. Cyngor Gwynedd - Cefnogaeth Gorfforaethol - Cynllun Partneriaethu Toiledau Cyhoeddus:

Derbyniwyd llythyr yn gofyn i Gyngor Cymuned Bryncrug ymrwymo i'r cynllun partneriaethu am ddwy flynedd, gyda'r taliad yn cael ei wneud yn flynyddol.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cynnig o bartneriaethu am ddwy flynedd gydag amod bod y toiledau yn cael eu moderneiddio. Hefyd, i gynnig partneriaethu am gyfnod estynedig e.e. pedair blynedd gyda disgownt.
I roi poster ar yr hysbysfwrdd er mwyn dangos bod tafarn y Peniarth yn cynnig toiled i'r cyhoedd o dan gynllun toiledau cymunedol Cyngor Gwynedd.

8. Gyngor Gwynedd - Cefnogaeth Gorfforaethol - Arolwg Cyhoeddus Strategaeth Ariannol Cyngor Gwynedd:

**PENDERFYNIAD:** I gyflwyno sylwadau yn mynegi pryder am effaith y toriadau ar drigolion ag y dylid ceisio sicrhau nad yw'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio yn cael eu colli e.e. torri gwair, ysgubo ffyrdd ... Gan hefyd fynegi y dylid darparu'r un gwasanaethau ar draws y Sir, ardaloedd gwledig ym Meirionnydd o dan anfantais o gymharu ag ardaloedd poblog Arfon.

9. Dŵr Cymru - Safle Gwaith Carthion Bryncrug:

Yr oedd llythyr wedi ei dderbyn mewn ymateb i lythyr y Cyngor yn mynegi pryder am sŵn ac arogl o safle gwaith carthion ym Mryncrug. Yr oedd llythyr Dwr Cymru yn dweud y byddai swyddog yn ymweld â'r safle er mwyn edrych ar yr offer.

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at Dŵr Cymru yn gofyn iddynt gynnal arolwg o ffiniau, gan bod coeden ddim yn saff oddeutu 800 i ffwrdd ar y llwybr, rhwng y ddwy giât.

10. Llywodraeth Cymru - Diweddariad Cyngor Cymuned a Thref:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

11. Llywodraeth Cymru - Ymgynghoriad - Gwella Cludiant Cyhoeddus:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Y clerc i anfon yr ymgynghoriad at Gynghorwyr i'w cwblhau fel unigolion.

12. Llwybrau Cyhoeddus gan gynnwys giatiau:

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at y Rheolwr Hawliau Tramwy Ardal Meirionnydd er mwyn ei hysbysu o'r polyn giât sydd wedi torri, gan gynnwys arwydd ger Cil y Parc.

13. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

- Y Pafiliwn yn fudr
- 6 polyn wedi torri ar derfyn y cae chwarae - yn gyfrifoldeb Cyngor Cymuned Bryncrug
- Rhwystrau o amgylch y cae pêl-droed wedi pydru, risg o ddisgyn
- Clwb Pêl-droed wedi talu £480, £510 dal yn daladwy

**PENDERFYNIAD:** Hysbysu'r Clwb Pêl-droed bod y pyst wedi pydru, gan ofyn i'r clwb atgyweirio'r pyst neu y byddai'r cyngor yn eu dymchwel er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y cae chwarae
Gofyn i'r Clwb Pêl-droed dalu'r anfoneb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gan hysbysu'r clwb bod unigolyn wedi bod ar y cae yn ymddwyn yn ffiaidd gyda disgyblion ac athrawon Ysgol Uwchradd Tywyn

14. Cae Chwarae - dyfynbrisiau:

**PENDERFYNIAD:** I ddyrannu contract i atgyweirio'r Pafiliwn i Mr B.J.Owen.

15. Clwb Ieuenctid Bryncrug:

Adroddwyd nad oedd yr un ymgeisydd wedi cyflwyno cais am y swyddi. Dywedodd y Clerc bod yr Urdd wedi datgan diddordeb mewn darparu'r gwasanaeth ar ran y Cyngor a byddai modd iddynt wneud hynny am swm tebyg i ffi Cyngor Gwynedd, ond nad oedd modd darparu gweithwyr ieuenctid ar nos Lun.

**PENDERFYNIAD:** I ddiolch i Gyngor Gwynedd am eu hymdrechion.
I gynnal cyfarfod gyda swyddogion o'r Urdd gan ddirprwyo i dri Gynghorydd gynrychioli'r Cyngor gyda'r Clerc.
Cysylltu gyda Pwyllgor y Ganolfan er mwyn holi os yw'r neuadd ar gael ar nosweithiau eraill.

16. Cais Ariannol - Capel Bethlehem, Bryncrug:

**PENDERFYNIAD:** I roi £20 fel rhodd.

17. Un Llais Cymru - Cytundeb Cyflog Cenedlaethol ar gyfer 2019/2020:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y Cytundeb Cyflog Cenedlaethol ar gyfer 2019/2020 sydd yn weithredol o Ebrill 2019 ymlaen.

18. Adolygu gwariant o Ebrill 2018 i Ragfyr 2018:

Dosbarthwyd taenlen yn manylu'r gwariant o Ebrill 2018 i mis Rhagfyr 2018. Nodwyd bod nifer o daliadau ar ôl i'w gwneud, gydag amcangyfrif oddeutu £2,500 o wariant i'w wneud o mis Ionawr 2019 i ddiwedd mis Mawrth 2019.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn yr adolygiad o Ebrill 2018 i mis Rhagfyr 2018.

19. Gosod cyllideb ar gyfer 2019/2020:

| **CYLLIDEB 2019/2020** | |
|---|---|
| CLERC - CYFLOG | £1,435.00 |
| CLERC - YG | £200.00 |
| CLERC - TEITHIO | £500.00 |
| CLERC - HYFFORDDIANT | £75.00 |
| GWEINYDDOL - DEUNYDD SWYDDFA | £50.00 |
| GWEINYDDOL - POSTIO | £90.00 |
| GWEINYDDOL - LLOGI YSTAFELL | £200.00 |
| GWEINYDDOL - FFÔN | £100.00 |
| GWEINYDDOL - GWEFAN | £100.00 |
| PENTREF - CYNNAL A CHADW | £1,000.00 |
| PENTREF - CELFI HANESYDDOL | £500.00 |
| PENTREF - BLODAU | £350.00 |
| PENTREF - FEINCIAU | £100.00 |
| PENTREF - LLOCHESI BWS | £250.00 |
| PENTREF - TOILED | £2,000.00 |
| PENTREF - CLWB IEUENCTID | £1,600.00 |
| CAE - TRYDAN | £50.00 |
| CAE - PAFILIWN | £1,000.00 |
| CAE - TORRI GWAIR | £1,000.00 |
| CAE - OFFER CHWARAE NEWYDD | £1,000.00 |
| CAE - CYNNAL A CHADW OFFER | £600.00 |
| CAE - BINIAU 'SBWRIEL | £120.00 |
| CYFRANIADAU A.137 | £750.00 |
| CORFFORAETHOL - UN LLAIS CYMRU | £110.00 |
| CORFFORAETHOL - YSWIRIANT | £650.00 |
| CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD MEWNOL | £150.00 |
| CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD ALLANOL | £285.00 |
| AELODAU - ETHOLIAD | £0.00 |
| AELODAU - HYFFORDDIANT | £200.00 |
| AELODAU - COSTAU TEITHIO | £100.00 |
| AELODAU - LWFANS | £1,350.00 |
| AELODAU - LWFANS GOFALU | £300.00 |
| SEFYLLFA ANARFEROL | £0.00 |
| **CYFANSWM** | **£16,215.00** |

**PENDERFYNIAD:** I osod cyllideb o £16,215 ar gyfer 2019/2020.

20. Gosod y bresept ar gyfer 2019/2020:

Cafwyd trafodaeth fanwl ynglŷn â balansau y Cyngor. Amcangyfrifwyd y byddai oddeutu £15,000 yng nghyfrifon y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o ystyried asedau'r Cyngor, sef offer chwarae a'r Pafiliwn. Y dylid cadw lefel y balansau rhwng £10,000 a £15,000.

**PENDERFYNIAD:** I osod y bresept ar gyfer 2019/2020 yn £12,360, sydd yn golygu codiad gwerth 3%, gyda gweddill o'r arian o'r balansau.

21. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

- Toriadau oedd prif ffocws Cyngor Gwynedd gydag ymgynghoriad ar y Strategaeth Ariannol.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

22. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddodd Cynghorydd bod aelod o'r cyhoedd wedi ei hysbysu o'i anfodlonrwydd o ddiffyg gweithredu honedig Cyngor Cymuned Bryncrug.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth parthed y gŵyn ac i'w drafod pan fydd cwyn ysgrifenedig wedi ei dderbyn.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:50pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................